



Ymgynghoriad ar geisiadau am wyth organeb a addaswyd yn enetig (GMO) i'w defnyddio at ddibenion bwyd a bwyd anifeiliaid ac ar gyfer newid deiliad yr awdurdodiad ar gyfer pum deg un GMO awdurdodedig

Dyddiad lansio: 12 Hydref 2022

Ymateb erbyn: 6 Rhagfyr 2022

Bydd yr ymgynghoriad hwn o ddiddordeb i'r canlynol yn

bennaf:

- Cyrff masnach sy'n cynrychioli rhanddeiliaid mewn perthynas â bwyd, bwyd anifeiliaid, amaethyddiaeth a'r amgylchedd
- Gwneuthurwyr, mewnforyr/allforyr a manwerthwyr bwyd anifeiliaid
- Pob prynwr bwyd anifeiliaid, gan gynnwys ar gyfer anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd ac anifeiliaid nad ydynt yn cynhyrchu bwyd
- Undebau llafur sy'n cynrychioli rhanddeiliaid yn y diwydiant ffermio
- Sefydliadau sy'n cynrychioli buddiannau defnyddwyr mewn cadwyni bwyd a chadwyni bwyd anifeiliaid
- Awdurdodau Gorfodi
- Defnyddwyr

Mae rhestr o bartïon sydd â buddiant wedi'i chynnwys yn [Atodiad A](#).

Pwnc a diben yr ymgynghoriad

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio safbwyntiau, sylwadau ac adborth rhanddeiliaid mewn perthynas â'r ceisiadau am gynhyrchion rheoleiddiedig a ystyrir yn y ddogfen hon, sydd wedi'u cyflwyno i'w hawdurdodi, i adnewyddu awdurdodiad, neu addasu awdurdodiad cyfredol (newid manylion deiliad yr awdurdodiad). Gofynnwn i rhanddeiliaid ystyried unrhyw ddarpariaethau perthnasol yng nghyfraith yr Undeb Ewropeaidd (UE) a ddargedwir a ffactorau dilys eraill (tystiolaeth arall sy'n cefnogi dadansoddiad risg clir, rhesymol a chyfiawnadwy, fel buddiannau defnyddwyr, dichonoldeb technegol, a ffactorau amgylcheddol), gan gynnwys y rheiny y mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) a Safonau Bwyd yr Alban wedi nodi eu bod yn berthnasol i'r ceisiadau hyn. Bydd hyn yn rhoi cyfle i rhanddeiliaid leisio eu barn am y cyngor a roddir i Weinidogion er mwyn llywio penderfyniadau.

Mae safbwynt yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban, a geir yn y ddogfen hon (gan gynnwys y telerau awdurdodi arfaethedig), yn ystyried [dogfennau safbwynt gwyddonol yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban](#). Bydd y safbwyntiau a gesglir trwy'r ymgynghoriad hwn yn cael eu hystyried ochr yn ochr â safbwyntiau swyddogion ar draws yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban ac adrannau eraill Llywodraeth y Deyrnas Unedig (DU) heblaw'r ASB er mwyn llywio penderfyniadau Gweinidogion o ran a ddylid awdurdodi/adnewyddu awdurdodiad y GMOs unigol i'w defnyddio ym Mhrydain Fawr.

Bydd ymgynghoriad cyfochrog yn cael ei gyhoeddi gan Safonau Bwyd yr Alban.

Sut i ymateb

Ymatebwch i'r ymgynghoriad gan ddefnyddio'r [arolwg ar-lein](#). Fodd bynnag, os nad yw hyn yn bosib, gallwch ymateb trwy anfon e-bost i:

E-bost: RPconsultations@food.gov.uk

Enw: Y Tîm Cymeradwyo Cynhyrchion Rheoleiddiedig

Is-adran/Cangen: Gwasanaethau Rheoleiddio

Manylion yr ymgynghoriad

Cyflwyniad

Er mwyn cael eu rhoi ar y farchnad, rhaid i geisiadau i awdurdodi cynhyrchion rheoleiddiedig gael eu cyflwyno ym Mhrydain Fawr, lle caiff y penderfyniad o ran awdurdodi ei wneud gan y Gweinidogion priodol yng Nghymru, yr Alban a Lloegr. Dyma swyddogaeth a gyflawnid yn flaenorol ar lefel yr UE. Mae ceisiadau am gynhyrchion rheoleiddiedig ar gyfer marchnad Prydain Fawr, gan gynnwys organebau a addaswyd yn enetig (GMOs), bellach yn destun proses dadansoddi risg y DU.

Mae'r ASB/Safonau Bwyd yr Alban wedi bod yn gweithio ar y cyd i sicrhau bod safonau uchel y DU o ran diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid a diogelu defnyddwyr yn parhau. Mae hyn yn unol â chyfrifoldeb yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban dros roi cyngor i Weinidogion am faterion diogelwch bwyd, neu fuddiannau eraill defnyddwyr mewn perthynas â bwyd (adran 6, Deddf Safonau Bwyd 1999, ac adran 3, Deddf Bwyd (yr Alban) 2015).

Yng Ngogledd Iwerddon, mae Cyfraith Bwyd yr UE ar GMOs yn dal i fod yn gymwys o dan delerau cyfredol Protocol Iwerddon/Gogledd Iwerddon. Mae hyn yn golygu bod angen awdurdodi GMOs o dan weithdrefnau awdurdodi'r UE cyn eu rhoi ar y farchnad yng Ngogledd Iwerddon.

Ein haseswyr risg ni sy'n cyflwyno'r wyddoniaeth sy'n sail i'n cyngor. Maent yn gyfrifol am nodi a phennu nodweddion peryglon a risgiau i iechyd, ac asesu lefelau cysylltiad (*exposure*). Lle bo Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop (EFSA) wedi dechrau asesiad o gais cyn diwedd y cyfnod pontio ar gyfer ymadawiad y DU â'r UE, bydd aseswyr risg yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban yn ystyried safbwynt EFSA fel rhan o'u hasesiad risg, lle bo hwnnw wedi'i gyhoeddi gan EFSA. Ar gyfer ceisiadau yn yr ymgynghoriad hwn, mae'r ASB/Safonau Bwyd yr Alban wedi cael mynediad at yr holl ddogfennaeth ategol a ddarparwyd i EFSA er mwyn iddounio ei farn, gan y rhoddwyd yr wybodaeth hon i'r ASB/Safonau Bwyd yr Alban gan yr ymgeisydd. Ar ôl gwerthuso, mae'r ASB/Safonau Bwyd yr Alban wedi cytuno â chasgliadau EFSA yn ei safbwyntiau. Mae'r ceisiadau i newid manylion deiliaid awdurdodiadau yn weinyddol eu natur, ac felly nid ydynt yn destun asesiad risg.

Yn dilyn asesiad risg, bydd yr ymgynghoriad hwn yn ceisio casglu safbwyntiau rhanddeiliaid ar yr awdurdodiadau arfaethedig ar gyfer cynhyrchion rheoleiddiedig.

Mae Gweinidogion ym mhob un o'r pedair gwlad wedi cytuno i [fframwaith cyffredin ar gyfer Diogelwch a Hylendid Bwyd a Bwyd Anifeiliaid](#). Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i ddatblygu yn unol â'r ymrwymadau i weithio ar y cyd ar draws y pedair gwlad a nodir yn y Fframwaith hwn. O'r herwydd, mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i ddatblygu trwy fforymau traws-lywodraethol perthnasol gyda'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, a Llywodraeth yr Alban. Cytunir ar gyngor terfynol gan y pedair gwlad cyn ei gyflwyno i Weinidogion.

Mae cynnwys yr ymgynghoriad hwn yn cyflwyno safbwyntiau'r ASB/Safonau Bwyd yr Alban a'r ffactorau y mae'r ASB/Safonau Bwyd yr Alban wedi nodi eu bod yn berthnasol i'r ceisiadau hyn, gan gynnwys effaith bosib unrhyw benderfyniad a wneir gan Weinidogion. Gwahoddir rhanddeiliaid i fanteisio ar y cyfle hwn i roi sylwadau ar y ffactorau hyn neu dynnu sylw at unrhyw ffactorau ychwanegol y dylid eu dwyn at sylw Gweinidogion cyn gwneud penderfyniad terfynol.

Wedi i ni gael adborth ar y safbwyntiau a'r ymatebion i'r ymgynghoriad, cam nesaf y broses awdurdodi yw i Weinidogion perthnasol yng Nghymru, yr Alban a Lloegr wneud penderfyniadau ynghylch awdurdodi (gan roi gwybod o hyd i Weinidogion yng Ngogledd Iwerddon), gan ystyried safbwynt gwyddonol yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban, unrhyw

ddarpariaethau perthnasol yng nghyfraith yr UE a ddargedwir, ac unrhyw ffactorau dilys eraill, gan gynnwys y rheiny a godwyd yn y broses ymgynghori.

Pwnc yr ymgynghoriad hwn

Yn unol â [Rheoliad yr UE a Ddargedwir 1829/2003](#) ar roi bwyd a bwyd anifeiliaid a addaswyd yn enetig ar y farchnad, mae'r ceisiadau a gynhwysir yn y ddogfen hon wedi'u cyflwyno i'w hawdurdodi, i adnewyddu awdurdodiad, neu i'w haddasu.

Mae GMOs yn blanhigion ac anifeiliaid y mae eu cyfansoddiad genetig wedi'i addasu gan ddefnyddio technegau biotechnoleg. Mae addasu genetig yn galluogi gwyddonwyr i gynhyrchu planhigion, anifeiliaid a micro-organebau sydd â nodweddion penodol. Mae bwyd a bwyd anifeiliaid a addaswyd yn enetig yn cynnwys GMOs, neu fe gânt eu cynhyrchu gan ddefnyddio GMOs. Er mwyn cael awdurdodiadau newydd, adnewyddiadau neu addasiadau ar gyfer GMOs cyfredol i'w rhoi ar farchnad Prydain Fawr, rhaid cyflwyno cais yn unol â Rheoliad yr UE a Ddargedwir 1829/2003.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud ag wyth cais am GMOs. Rhoddir manylion pob GMO yn yr atodiadau. Oni bai bod y safbwyntiau a gesglir yn yr ymgynghoriad hwn yn darparu tystiolaeth ychwanegol, bydd yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban yn argymhell awdurdodi, addasu neu estyn defnydd y cynhyrchion rheoleiddiedig hyn yn unol â'r telerau arfaethedig.

Mae'r ymgynghoriad hwn hefyd yn cynnwys tri chais i addasu manylion deiliaid yr awdurdodiadau ar gyfer pum deg un GMO awdurdodedig i'w defnyddio at ddibenion bwyd a bwyd anifeiliaid.

Ystyrir pob cais mewn atodiad ar wahân, gan gynnwys rhif adnabod y cynnyrch rheoleiddiedig a theitl y cais (CTRL+Clic i ddilyn y ddolen):

Atodiad B: RP1133 – Ffa soia DAS-81419-2 x DAS-44406-06 (awdurdodiad newydd)	12
Atodiad C: RP1134 – Ffa soia DAS-81419-2 (awdurdodiad newydd)	16
Atodiad D: RP1138 – Ffa soia SYHT0H2 (awdurdodiad newydd)	20
Atodiad E: RP1179 – Indrawn MON 88017 x MON 810 (adnewyddu awdurdodiad)	

Atodiad F: RP1180 – Indrawn MON 87427 x MON 87460 x MON 89034 x 1507 x MON 87411 x 59122 a'i is-gyfuniadau (awdurdodiad newydd)	28
Atodiad G: RP1184 – Indrawn 1507 x MIR 162 x MON 810 x NK 603 a'i is-gyfuniadau (awdurdodiad newydd)	36
Atodiad H: RP1205 – Cotwm GHB614 x T304-40 x GHB119 (awdurdodiad newydd)	40
Atodiad I: RP1263 – Rêp had olew GT73 (adnewyddu awdurdodiad)	46
Atodiad J: RP1093, RP1100, RP1329 – newid deiliad yr awdurdodiad	50

Effeithiau

Fel rhan o'r broses dadansoddi risg, mae'r ASB/Safonau Bwyd yr Alban wedi asesu'r effeithiau posib a fyddai'n deillio o awdurdodi'r GMOs hyn at ddibenion bwyd a bwyd anifeiliaid, pe bai Gweinidogion yn penderfynu eu hawdurdodi. Ni wnaeth ein hasesiad ar y cyd o'r cynigion nodi unrhyw effeithiau sylweddol. Roedd yr effeithiau a ystyriwyd yn cynnwys y rheiny a gafodd eu nodi amlaf fel effeithiau posib wrth gyflwyno neu ddiwygio cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid (er enghraifft, gwaith gweithredu awdurdodau lleol, iechyd, yr amgylchedd, twf, arloesi, masnach, cystadleuaeth, buddiannau defnyddwyr, neu fusnesau bach a micro). Yn gyffredinol, dylai awdurdodi'r cynhyrchion hyn arwain at fwy o gystadleuaeth yn y farchnad, gan gefnogi twf ac arloesi yn y sector.

Yn unol â'r fframwaith cyffredin dros dro ar gyfer diogelwch a hylendid bwyd a bwyd anifeiliaid, mae Gogledd Iwerddon yn parhau i gymryd rhan lawn yn y prosesau dadansoddi risg sy'n ymwneud â diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid. Mae hyn yn adlewyrchu rôl annatod Gogledd Iwerddon yn y DU ac yn sicrhau bod unrhyw benderfyniad a wneir yn ystyried yn llawn yr effeithiau posib ar y DU yn ei chyfanrwydd. Mae'r GMOs a gynhwysir yn yr ymgynghoriad hwn eisoes wedi'u hawdurdodi i'w defnyddio yng Ngogledd Iwerddon, yn unol â deddfwriaeth sy'n gymwys yng Ngogledd Iwerddon o dan Brotocol Gogledd Iwerddon. O'r herwydd, ni fyddai awdurdodi yng Nghymru, Lloegr a'r Alban yn arwain at wahaniaethau rheoleiddio o fewn y DU.

Ffactorau dilys eraill

Rydym wedi ystyried amrywiaeth o ffactorau dilys eraill y gallai Gweinidogion eu hystyried wrth wneud penderfyniadau am y GMOs hyn, gan gynnwys dichonoldeb

gwleidyddol, economaidd, amgylcheddol, technegol a chymdeithasol, buddiannau defnyddwyr, ac ymddygiadau defnyddwyr. Ar gyfer yr wyth cais am awdurdodiad neu adnewyddu awdurdodiad, mae ein hasesiad ar y cyd wedi nodi'r canlynol:

Amgylcheddol

Mae'r awdurdodiadau hyn ar gyfer eu defnyddio at ddibenion bwyd a bwyd anifeiliaid yn unig, ac mae unrhyw reolaethau ar ddeunydd lluosogi planhigion yn cael eu rheoleiddio a'u rheoli yn Lloegr yn unol â Rheoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Eu Gollwng yn Fwriadol) 2002; yng Nghymru yn unol â Rheoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Eu Gollwng yn Fwriadol) (Cymru) 2002; ac yn yr Alban yn unol â Rheoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Eu Gollwng yn Fwriadol) (Yr Alban) 2002. Mae awdurdodiadau'r UE sy'n gymwys yng Ngogledd Iwerddon yn ymwneud â'u defnyddio mewn bwyd a bwyd anifeiliaid yn unig. Mae unrhyw reolaethau ar ddeunydd lluosogi planhigion yn cael eu rheoleiddio a'u rheoli yng Ngogledd Iwerddon yn unol â'r Rheoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Eu Gollwng yn Fwriadol) (Gogledd Iwerddon) 2003.

Buddiannau defnyddwyr

Mae'r ASB/Safonau Bwyd yr Alban yn buddsoddi mewn ymchwil defnyddwyr fel bod gennym dystiolaeth am ymddygiad, dealltwriaeth a dewisiadau defnyddwyr i lywio penderfyniadau polisi. Mae ein harolwg ymchwil gymdeithasol blaenllaw, [Bwyd a Chi 2](#), sydd hefyd yn Ystadegyn Swyddogol, yn rhoi'r gallu inni ddadansoddi cronfa ddata sampl fawr o ymddygiadau, agweddau a phryderon defnyddwyr ddwywaith y flwyddyn.

Yn ein harolwg Tracio Agweddau'r Cyhoedd, rydym yn holi defnyddwyr am y materion sy'n destun pryder iddynt, ac yn cyhoeddi'r canlyniadau. Mae bwydydd a addaswyd yn enetig yn un o'r materion a restrir. Caiff hwn ei gynnal hefyd gan Safonau Bwyd yr Alban gyda'r arolwg [Food in Scotland Consumer Tracker](#).

Mae'r ASB wedi cynnal ymchwil benodol i Agweddau Defnyddwyr tuag at Dechnolegau sy'n Dod i'r Amlwg, a oedd yn cynnwys bwydydd a addaswyd yn enetig. Rydym hefyd yn dilyn arolygon defnyddwyr eraill fel The British Social Attitudes Survey, sydd hefyd wedi holi am agweddau tuag at gynhyrchu bwyd a addaswyd yn enetig. Gellir gweld yr

ymatebion i gwestiynau am addasu bwyd yn enetig yn y bennod 'Gwyddoniaeth' yn yr [36^{ain} Adroddiad Blynyddol](#).

Gwleidyddol

Rydym yn croesawu ymatebion i'r ymgynghoriad hwn. Fodd bynnag, nid yw'r ceisiadau hyn yn ymwneud ag amaethu, felly nid yw ystyried yr agwedd wleidyddol hon yn berthnasol i wneud penderfyniadau rheoli risg fel rhan o'r ymgynghoriad hwn.

Mae'r Bil Technolegau Genetig (Bridio Manwl) yn mynd trwy Senedd y DU ar hyn o bryd, ac os caiff y Bil ei basio, bydd yr ASB yn Lloegr yn cyflwyno fframwaith rheoleiddio newydd ar gyfer organebau sydd wedi'u bridio'n fanwl (PBOs), a fydd ar wahân i'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer GMOs. Nid yw trywydd y bil hwn yn berthnasol i'r cynhyrchion rheoleiddiedig yn yr ymgynghoriad hwn.

Cymdeithasol

Ceir cryn amrywiaeth ym marn y cyhoedd ynghylch GMOs, gyda thuedd gyffredinol tuag at agweddau anffafriol wrth ystyried defnyddio technoleg GM wrth gynhyrchu bwyd. Fodd bynnag, mae gofynion labelu GM yn galluogi defnyddwyr i wneud dewis gwybodus o ran a ydynt am brynu bwydydd sy'n cynnwys GMOs neu fwydydd sydd wedi'u cynhyrchu gan ddefnyddio GMOs. Nid yw cynhyrchion bwyd sy'n deillio o anifeiliaid a fwydwyd â bwyd anifeiliaid sy'n cynnwys GMOs yn dod o fewn cwmpas y gofynion labelu penodol ar gyfer bwydydd GM.

Dewisiadau o ran awdurdodi

Ar ôl ystyried yr asesiad risg, y gofynion cyfreithiol, ffactorau dilys eraill a'r effeithiau, bydd gan Weinidogion y dewisiadau canlynol ar gyfer pob un o'r ceisiadau:

- a. Dewis 1: Awdurdodi ei ddefnyddio mewn bwyd a bwyd anifeiliaid yn unol â'r telerau awdurdodi arfaethedig.
- b. Dewis 2: Gwneud penderfyniad nad yw'n unol ag argymhelliad yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban.

Gwahoddir rhanddeiliaid i ystyried y cwestiynau a ofynnir mewn perthynas ag unrhyw ddarpariaethau perthnasol yng nghyfraith yr UE a ddargedwir a ffactorau dilys eraill fel y nodir uchod. Caiff ymatebion rhanddeiliaid eu hystyried ynghyd ag asesiad risg a

ffactorau eraill wrth ddatblygu cyngor a roddir i Weinidogion. Oni bai bod y safbwyntiau a gesglir yn yr ymgynghoriad hwn yn darparu tystiolaeth ychwanegol, bydd yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban yn argymhell awdurdodi, addasu neu estyn defnydd y cynhyrchion rheoleiddiedig hyn yn unol â'r telerau arfaethedig.

Y Broses Ymgysylltu ac Ymgynghori

Cyhoeddir manylion yr holl geisiadau am gynhyrchion rheoleiddiedig a ddilyswyd ar y Gofrestr Ceisiadau am Gynhyrchion Rheoleiddiedig [ar wefan yr Asiantaeth Safonau Bwyd](#).

Gwahoddir rhanddeiliaid i ystyried y cwestiynau a ofynnir isod mewn perthynas ag unrhyw ddarpariaethau perthnasol yng nghyfraith yr UE a ddargedwir a ffactorau dilys eraill.

Yn dilyn y broses ymgynghori bydd ymatebion yn cael eu cyhoeddi, a byddant ar gael i rhanddeiliaid a Gweinidogion.

Y cwestiynau a ofynnir yn yr ymgynghoriad hwn:

1. A oes gennych chi unrhyw bryderon am ddiogelwch y cynhyrchion/digwyddiadau sydd heb gael eu hystyried isod mewn perthynas â'r defnyddwyr, y rhanddeiliaid neu'r effeithiau bwriadedig? Nodwch fanylion neu ddolenni at unrhyw wybodaeth sydd wedi peri i chi bryderu am ddiogelwch y GMOs hyn at ddibenion bwyd a bwyd anifeiliaid.
2. A oes gennych chi unrhyw sylwadau neu bryderon am yr effeithiau wrth ystyried awdurdodi neu beidio ag awdurdodi'r GMOs unigol, ac os ydych o blaid awdurdodi, am delerau awdurdodi'r rhain (fel y'u hamlinellir yn safbwyntiau'r ASB/Safonau Bwyd yr Alban)?
3. A oes unrhyw ffactorau eraill y dylai Gweinidogion eu hystyried sydd heb eu hamlygu?
4. A oes gennych chi unrhyw sylwadau neu bryderon ynghylch effeithiau newid manylion deiliad yr awdurdodiad?
5. A oes gennych chi unrhyw adborth arall?

Pwysig: Roedd yr ymgynghoriad hwn yn ymwneud â rhoi bwyd a bwyd anifeiliaid a addaswyd yn enetig ar y farchnad; nid yw'r ceisiadau ar gyfer y GMOs hyn wedi cynnwys cais am gymeradwyaeth ar gyfer amaethu gan unrhyw un o'r ymgeiswyr. O'r herwydd, nid yw sylwadau ynghylch amaethu yn dod o fewn cwmpas yr ymgynghoriad penodol hwn.

Ymatebion

Bydd yr ymgynghoriad hwn yn para am 8 wythnos. Mae angen i ymatebion ddod i law erbyn diwedd y dydd 6 Rhagfyr 2022.

Dylech ymateb i'r ymgynghoriad gan ddefnyddio'r [arolwg ar-lein](#). Fodd bynnag, os nad yw hyn yn bosib, gallwch ymateb trwy anfon e-bost i: RPconsultations@food.gov.uk

Nodwch pa gais/ceisiadau neu gynnyrch/cynhyrchion rydych chi'n ymateb yn eu cylch trwy ddefnyddio'r llinell bwnc ganlynol ar gyfer eich ymateb:

Ymateb i ymgynghoriad GMO [nodwch rif(au) Cynnyrch Rheoleiddiedig]

Os ydych yn ymateb trwy e-bost, nodwch a ydych yn ymateb fel unigolyn neu ar ran sefydliad neu gwmni (gan gynnwys manylion unrhyw randdeiliaid y mae eich sefydliad yn eu cynrychioli), ac ym mha wlad rydych wedi'ch lleoli.

Bydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn cyhoeddi'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad hwn o fewn 12 wythnos i'r ymgynghoriad ddod i ben.

I gael gwybodaeth am sut mae'r ASB yn trin eich data personol, cyfeiriwch at yr [Hysbysiad preifatrwydd ar gyfer Ymgynghoriadau](#).

Rhennir ymatebion gyda Safonau Bwyd yr Alban.

Rhagor o wybodaeth

Os bydd angen y ddogfen hon arnoch mewn fformat sy'n haws i'w ddarllen, anfonwch fanylion at y cyswllt a enwir ar gyfer ymatebion i'r ymgynghoriad hwn, a bydd eich cais yn cael ei ystyried.

Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i baratoi yn unol ag [egwyddorion ymgynghori Llywodraeth Ei Mawrhydi](#).

Ar ran yr Asiantaeth Safonau Bwyd, hoffwn ddiolch yn fawr i chi am gymryd rhan yn yr ymgynghoriad cyhoeddus hwn.

Yn gywir,

Y Tîm Cymeradwyo Cynhyrchion Rheoleiddiedig

Gwasanaethau Rheoleiddiedig

Atodiad A: Rhestr o bartïon â buddiant

Cysylltir yn uniongyrchol â chymdeithasau masnach rhanddeiliaid allweddol sydd â buddiant sylweddol mewn GMOs ar draws y sector ehangach, ac a gynrychiolir ar draws pedair gwlad y DU, er mwyn cael eu hadborth am yr ymgynghoriad hwn:

- Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr
- Y Cyngor Biotechnoleg Amaethyddol
- Y Gymdeithas Masnach Grawn a Bwyd Anifeiliaid
- Cydffederasiwn y Diwydiannau Amaethyddol
- Cymdeithas Gweithgynhyrchwyr Bwyd Anifeiliaid Anwes
- Cymdeithas Masnach Marchogaeth Prydain
- Cymdeithas Gweithgynhyrchwyr Ychwanegion ac Ychwanegion Bwyd Anifeiliaid Prydain
- GM Freeze
- Beyond GM
- Gene Watch
- Undeb Amaethwyr Cymru
- NFU Cymru
- Undeb Amaethwyr Ulster
- Cymdeithas Masnach Grawn Gogledd Iwerddon

Nid rhestr gynhwysfawr yw hon.

[Dychwelyd i frig y ddogfen ymgynghori.](#)

Atodiad B: RP1133 – Ffa soia DAS-81419-2 x DAS-44406-6 (awdurdodiad newydd)

Cefndir

Yn unol â [Rheoliad yr UE a Ddargedwir 1829/2003](#) ar gyfer rhoi bwyd a bwyd anifeiliaid a addaswyd yn enetig ar y farchnad ym Mhrydain Fawr, mae cais RP1133 wedi'i gyflwyno ar gyfer asesu ffa soia a addaswyd yn enetig DAS-81419-2 x DAS-44406-6, a hynny er mwyn cael awdurdodiad newydd i'w ddefnyddio at ddibenion bwyd a bwyd anifeiliaid.

Cynhyrchwyd y ffa soia stac dau-ddigwyddiad trwy groesfridio confensiynol ar ddau ddigwyddiad ffa soia unigol.

Mae digwyddiad DAS-81419-2 yn mynegi'r proteinau Cry1F, Cry1Ac a PAT i roi amddiffyniad rhag plâu cenadeiniog penodol a goddefedd rhag chwynladdwyr sy'n seiliedig ar amoniwm glwffosinad. Mae digwyddiad DAS-44406-6 yn mynegi'r proteinau 2mEPSPS, AAD-12 a PAT, sy'n rhoi goddefedd rhag chwynladdwyr sy'n cynnwys glyffosad, asid 2,4-deucloroffenocsiasetig a chwynladdwyr ffenocsidiol cysylltiedig eraill.

Mae'r cynnyrch hwn wedi'i awdurdodi i'w roi ar y farchnad yn yr UE ac yng Ngogledd Iwerddon, o dan Brotoocol Gogledd Iwerddon, fel y nodir ym Mhenderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2021/1387.

Telerau awdurdodi arfaethedig

Mae safbwynt yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban, sy'n ystyried y [safbwynt gwyddonol](#), o blaid awdurdodi'r GMO hon, yn seiliedig ar asesiad risg a chasgliadau diogelwch. Amlinellir y telerau awdurdodi arfaethedig isod.

Yr organeb a addaswyd yn enetig a'i dynodwr unigryw:

- i. Ffa soia DAS-81419-2 x DAS-44406-6
1. Dynodiad a manyleb y cynhyrchion:
 - i. bwydydd a chynhwysion bwyd sy'n cynnwys neu sydd wedi'u cynhyrchu gan ddefnyddio ffa soia a addaswyd yn enetig DAS-81419-2 x DAS-44406-6;

- ii. bwyd anifeiliaid sy'n cynnwys neu sydd wedi'i gynhyrchu gan ddefnyddio ffa soia a addaswyd yn enetig DAS-81419-2 x DAS-444Ø6-6;
- iii. cynhyrchion sy'n cynnwys ffa soia a addaswyd yn enetig DAS-81419-2 x DAS-444Ø6-6 at ddibenion heblaw'r rheiny y darperir ar eu cyfer ym mhwyntiau (i) a (ii), ac eithrio amaethu.

Mae'r ffa soia a addaswyd yn enetig DAS-81419-2 x DAS-444Ø6-6 yn mynegi'r genyn *2mepsps*, sy'n rhoi goddefedd rhag chwynladdwyr sy'n seiliedig ar glyffosad; y genyn *aad-12*, sy'n rhoi goddefedd rhag asid 2,4-deucloroffenocsiasetig (2,4-D) a chwynladdwyr ffenocsi eraill cysylltiedig; y genyn *pat*, sy'n rhoi goddefedd rhag chwynladdwyr sy'n seiliedig ar amoniwm glwffosinad; a'r genynnau synthetig *cry1F* a *cry1Ac*, sy'n rhoi goddefedd rhag rhai plâu cenadeiniog.

2. Labelu:

- i. At ddibenion y gofynion labelu a nodir yn Erthyglau 13(1) a 25(2) o Reoliad a Ddargedwir Rhif 1829/2003, ac yn Erthygl 4(6) o Reoliad a Ddargedwir Rhif 1830/2003, 'enw'r organeb' fydd 'soybean'
- ii. Rhaid i'r geiriau 'not for cultivation' ymddangos ar y label ac yn y dogfennau sy'n cyd-fynd â'r cynhyrchion sy'n cynnwys ffa soia DAS-81419-2 x DAS-444Ø6-6, ac eithrio bwyd a chynhwysion bwyd.

3. Dull canfod:

- i. Y dulliau canfod PCR digwyddiad-benodol meintiol yw'r rheiny sydd wedi'u dilysu'n unigol ar gyfer digwyddiadau ffa soia addaswyd yn enetig DAS-81419-2, DAS-44406-6, ac sydd wedi'u dilysu ymhellach ar gyfer y stac ffa soia DAS-81419-2 x DAS-44406-6
- ii. Wedi'u dilysu gan labordy cyfeirio'r UE, a sefydlwyd o dan Reoliad yr UE Rhif 1829/2003.
- iii. Deunydd Cyfeirio: Gellir cyrchu ERM®-BF437 (ar gyfer DAS-81419-2) ac ERM®-BF436 (ar gyfer DAS-444Ø6-6) trwy Ganolfan Ymchwil ar y Cyd (JRC) y Comisiwn Ewropeaidd.

4. Cynllun monitro ar gyfer effeithiau amgylcheddol:

- i. Rhaid i ddeiliad yr awdurdodiad sicrhau y rhoddir ar waith gynllun monitro ar gyfer effeithiau amgylcheddol, a gyflwynwyd gyda'r cais i awdurdodi'r indrawn a addaswyd yn enetig y cyfeirir ato ym mharagraff 1, cyfeirnod "RP1133" a gyflwynwyd i'r Awdurdod Diogelwch Bwyd ar 1 Mehefin 2021.
- ii. Rhaid i ddeiliad yr awdurdodiad gyflwyno adroddiadau blynyddol ar weithredu a chanlyniadau'r gweithgareddau a nodir yn y cynllun monitro i'r Awdurdod Diogelwch Bwyd, yn unol â'r fformat a nodir yn Atodiad 2 i Benderfyniad 2009/770.

5. Deiliad yr awdurdodiad

- i. Corteva Agrisciences LLC
- ii. Fe'i cynrychiolir yn y DU gan Corteva Agriscience UK Limited European Development Centre 3B Park Square, Milton Park, Abingdon Oxon OX14 4RN

Unrhyw ddarpariaethau perthnasol yng nghyfraith yr UE a ddargedwir

Dulliau dadansoddol

- Yn unol ag Erthygl 32 o Reoliad yr UE a Ddargedwir 1829/2003, ac Atodiad I iddo, mae dulliau dadansoddol wedi'u dilysu gan y Labordy Cyfeirio GMOs, LGC, fel rhai priodol i'w defnyddio wrth ganfod a chynnal rheolaethau swyddogol ar ffa soia DAS-81419-2 x DAS-44406-6. [Mae dulliau dadansoddol dilys wedi'u cyhoeddi.](#)

Labelu

- Mae labelu yn darparu gwybodaeth i ddefnyddwyr ac yn eu galluogi i wneud dewis gwybodus.
- Yn unol â [Rheoliad yr UE a Ddargedwir 1830/2003](#) ynghylch labelu ac olrhain GMOs, ac olrhain cynhyrchion bwyd a bwyd anifeiliaid a gynhyrchir gan ddefnyddio GMOs, ceir gofyniad o ran labelu ac olrhain cynhyrchion bwyd a bwyd anifeiliaid sy'n deillio o ffynonellau GM, ni waeth beth yw presenoldeb GMOs canfyddadwy yn y cynnyrch terfynol, neu swm y cynhwysyn GM sy'n fwiadol bresennol.

- Yn unol â [Rheoliad yr UE a Ddargedwir 1830/2003](#) ynghylch cynhyrchion bwyd/bwyd anifeiliaid sydd wedi'u pecynnu ymlaen llaw sy'n cynnwys GMOs, rhaid i'r geiriau 'This product contains genetically modified organisms' neu 'This product contains genetically modified [name of organism(s)]' ymddangos ar label. Yn achos cynhyrchion sydd heb ddeunydd pecynnu, rhaid i'r geiriau hyn ymddangos ar y cynnyrch neu gyd-fynd â'r cynnyrch.
- Rhaid i weithredwyr sicrhau bod y Dynodwr Unigryw DAS-81419-2 x DAS-44406 yn dod gyda datganiad ysgrifenedig o bresenoldeb GMO ar gyfer swyddogaethau olrhain, gan gychwyn gyda'r camau cyntaf, sef rhoi'r cynnyrch ar y farchnad, gan gynnwys mewn symiau mawr.

Ffactorau dilys eraill a nodwyd y gallai Gweinidogion eu hystyried wrth wneud penderfyniadau

Cam nesaf y broses awdurdodi yw i Weinidogion benderfynu a ddylid awdurdodi'r cynnyrch, gan ddwyn i ystyriaeth safbwynt yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban ac ymatebion rhanddeiliaid i'r ymgynghoriad. Gan fod safbwynt yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban wedi dod i'r casgliad bod y cynnyrch yn ddiogel i'w awdurdodi yn unol â'r telerau arfaethedig, safbwynt yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban yw nad oes unrhyw resymau i Weinidogion wrthod awdurdodi, oni bai bod yna ffactorau dilys eraill a allai nodi fel arall. Wrth gyflwyno cyngor a chynorthwyo Gweinidogion, mae'r ASB a Safonau Bwyd yr Alban yn gweithredu yn unol â'u swyddogaethau o dan Ddeddf Safonau Bwyd 1999 a Deddf Bwyd (yr Alban) 2015. Nid yw'r ASB/Safonau Bwyd yr Alban wedi nodi unrhyw ffactorau dilys eraill a fyddai'n atal awdurdodiad, felly oni bai bod yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn nodi unrhyw ffactorau dilys eraill i'w hystyried, cyngor yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban i Weinidogion fydd awdurdodi yn unol â'r telerau arfaethedig sydd wedi'u hamlinellu yn y safbwynt.

Roedd y ffactorau dilys eraill a ystyriwyd yn cynnwys dichonoldeb gwleidyddol, economaidd, amgylcheddol, technegol a chymdeithasol, buddiannau defnyddwyr, ac ymddygiadau defnyddwyr. Ni wnaeth ein hasesiad ar y cyd o'r ffactorau dilys eraill y gallai Gweinidogion eu hystyried wrth wneud penderfyniadau nodi unrhyw beth o bwys, ac eithrio'r ffactorau a amlinellir [ym mhrif destun y ddogfen hon](#) ac awdurdodiad diweddar gan yr UE ar gyfer y GMO hon.

Mae'r GMO hon wedi'i hawdurdodi i'w defnyddio yng Ngogledd Iwerddon, yn unol â deddfwriaeth yr UE sy'n gymwys yng Ngogledd Iwerddon, o dan Brotool Gogledd Iwerddon.

[Dychwelyd i frig y ddogfen ymgynghori.](#)

Atodiad C: RP1134 – Ffa soia DAS-81419-2 (awdurdodiad newydd)

Cefndir

Yn unol â [Rheoliad yr UE a Ddargedwir 1829/2003](#) ar gyfer rhoi bwyd a bwyd anifeiliaid a addaswyd yn enetig ar y farchnad ym Mhrydain Fawr, mae cais RP1134 wedi'i gyflwyno ar gyfer asesu ffa soia a addaswyd yn enetig DAS-81419-2, a hynny er mwyn cael awdurdodiad newydd i'w ddefnyddio at ddibenion bwyd a bwyd anifeiliaid.

Datblygwyd ffa soia DAS-81419-2 er mwyn rhoi ymwrthedd rhag rhai plâu cenadeiniog sy'n cnoi. Cyflawnir yr ymwrthedd trwy fynegi'r proteinau Cry1F a Cry1Ac o *Bacillus thuringiensis*. Mae ffa soia DAS-81419-2 hefyd yn mynegi'r protein PAT o *Streptomyces viridochromogenes*, sy'n rhoi goddefedd rhag chwynladdwyr sy'n seiliedig ar amoniwm glwffosinad ac a ddefnyddiwyd fel genyn nodi detholadwy.

Mae'r cynnyrch hwn wedi'i awdurdodi i'w roi ar y farchnad yn yr UE ac yng Ngogledd Iwerddon, o dan Brothocol Gogledd Iwerddon, fel y nodir ym Mhenderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2021/1386.

Telerau awdurdodi arfaethedig

Mae safbwynt yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban, sy'n ystyried y [safbwynt gwyddonol](#), o blaid awdurdodi'r GMO hon, yn seiliedig ar asesiad risg a chasgliadau diogelwch. Amlinellir y telerau awdurdodi arfaethedig isod.

Yr organeb a addaswyd yn enetig a'i dynodwr unigryw:

- i. Ffa soia DAS-81419-2

1. Dynodiad a manyleb y cynhyrchion:

- i. bwydydd a chynhwysion bwyd sy'n cynnwys neu sydd wedi'u cynhyrchu gan ddefnyddio ffa soia a addaswyd yn enetig DAS-81419-2;
- ii. bwyd anifeiliaid sy'n cynnwys neu sydd wedi'i gynhyrchu gan ddefnyddio ffa soia a addaswyd yn enetig DAS-81419-2;

- iii. cynhyrchion sy'n cynnwys ffa soia a addaswyd yn enetig DAS-81419-2 at ddibenion heblaw'r rheiny y darperir ar eu cyfer ym mhwyntiau (i) a (ii), ac eithrio amaethu.

Mae ffa soia a addaswyd yn enetig DAS-81419-2 yn mynegi'r genyn synthetig *cry1Fv3* a'r genyn synthetig *cry1Ac*, sy'n rhoi amddiffyniad rhag rhai plâu cenadeiniog. Yn ogystal, defnyddiwyd y genyn *pat*, sy'n rhoi goddefedd rhag chwynladdwr sy'n seiliedig ar amoniwm glwffosinad, fel marciwr dethol yn y broses addasu genetig.

2. Labelu:

- i. At ddibenion y gofynion labelu a nodir yn Erthyglau 13(1) a 25(2) o Reoliad yr UE a Ddargedwir Rhif 1829/2003, ac yn Erthygl 4(6) o Reoliad yr UE a Ddargedwir Rhif 1830/2003, 'enw'r organeb' fydd 'soybean'.
- ii. Rhaid i'r geiriau 'not for cultivation' ymddangos ar y label ac yn y dogfennau sy'n cyd-fynd â'r cynhyrchion sy'n cynnwys ffa soia DAS-81419-2, ac eithrio bwyd a chynhwysion bwyd.

3. Dull canfod:

- i. Y dulliau canfod PCR digwyddiad-benodol meintiol yw'r rheiny a ddilyswyd ar gyfer digwyddiad ffa soia a addaswyd yn enetig DAS-81419-2.
- ii. Wedi'u dilysu gan labordy cyfeirio'r UE, a sefydlwyd o dan Reoliad yr UE Rhif 1829/2003.
- iii. Deunydd Cyfeirio: Gellir cyrchu ERM®-BF437 trwy Ganolfan Ymchwil ar y Cyd (JRC) y Comisiwn Ewropeaidd.

4. Cynllun monitro ar gyfer effeithiau amgylcheddol:

- i. Rhaid i ddeiliad yr awdurdodiad sicrhau y rhoddir ar waith gynllun monitro ar gyfer effeithiau amgylcheddol, a gyflwynwyd gyda'r cais i awdurdodi'r indrawn a addaswyd yn enetig y cyfeirir ato ym mharagraff 1, cyfeirnod "RP1134" a gyflwynwyd i'r Awdurdod Diogelwch Bwyd ar 1 Mehefin 2021.
- ii. Rhaid i ddeiliad yr awdurdodiad gyflwyno adroddiadau blynyddol ar weithredu a chanlyniadau'r gweithgareddau a nodir yn y cynllun monitro i'r Awdurdod Diogelwch Bwyd, yn unol â'r fformat a nodir yn Atodiad 2 i Benderfyniad 2009/770.

6. Deiliad yr awdurdodiad

i. Corteva Agrisciences LLC

ii. Fe'i cynrychiolir yn y DU gan Corteva Agriscience UK Limited European Development Centre 3B Park Square, Milton Park, Abingdon Oxon OX14 4RN

Unrhyw ddarpariaethau perthnasol yng nghyfraith yr UE a ddargedwir

Dulliau dadansoddol

- Yn unol ag Erthygl 32 o Reoliad yr UE a Ddargedwir 1829/2003, ac Atodiad I iddo, mae dulliau dadansoddol wedi'u dilysu gan y Labordy Cyfeirio GMOs, LGC, fel rhai priodol i'w defnyddio wrth ganfod a chynnal rheolaethau swyddogol ar ffa soia DAS-81419-2. [Mae dulliau dadansoddol dilys wedi'u cyhoeddi.](#)

Labelu

- Mae labelu yn darparu gwybodaeth i ddefnyddwyr ac yn eu galluogi i wneud dewis gwybodus.
- Yn unol â [Rheoliad yr UE a Ddargedwir 1830/2003](#) ynghylch labelu ac olrhain GMOs, ac olrhain cynhyrchion bwyd a bwyd anifeiliaid a gynhyrchir gan ddefnyddio GMOs, ceir gofyniad o ran labelu ac olrhain cynhyrchion bwyd a bwyd anifeiliaid sy'n deillio o ffynonellau GM, ni waeth beth yw presenoldeb GMOs canfyddadwy yn y cynnyrch terfynol, neu swm y cynhwysyn GM sy'n fwriadol bresennol.
- Yn unol â [Rheoliad yr UE a Ddargedwir 1830/2003](#) ynghylch cynhyrchion bwyd/bwyd anifeiliaid sydd wedi'u pecynnu ymlaen llaw sy'n cynnwys GMOs, rhaid i'r geiriau 'This product contains genetically modified organisms' neu 'This product contains genetically modified [name of organism(s)]' ymddangos ar label. Yn achos cynhyrchion sydd heb ddeunydd pecynnu, rhaid i'r geiriau hyn gael eu harddangos yn glir yn union wrth ymyl y cynnyrch.
- Rhaid i weithredwyr sicrhau bod y Dynodwr Unigryw DAS-81419-2 yn dod gyda datganiad ysgrifenedig o bresenoldeb GMO ar gyfer swyddogaethau olrhain, gan

gychwyn gyda'r camau cyntaf, sef rhoi'r cynnyrch ar y farchnad, gan gynnwys mewn symiau mawr.

Ffactorau dilys eraill a nodwyd y gallai Gweinidogion eu hystyried wrth wneud penderfyniadau

Cam nesaf y broses awdurdodi yw i Weinidogion wneud penderfyniadau o ran awdurdodi. Gan ddwyn i ystyriaeth safbwynt yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban, gallai Gweinidogion benderfynu awdurdodi'r cynnyrch. Gan fod y safbwynt wedi dod i'r casgliad bod y cynnyrch yn ddiogel i'w awdurdodi ar sail y telerau arfaethedig, barn yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban yw nad oes unrhyw resymau i Weinidogion wrthod awdurdodi, oni bai bod yna ffactorau dilys eraill a allai nodi fel arall. Wrth gyflwyno cyngor a chynorthwyo Gweinidogion, mae'r ASB a Safonau Bwyd yr Alban yn gweithredu yn unol â'u swyddogaethau o dan Ddeddf Safonau Bwyd 1999 a Deddf Bwyd (yr Alban) 2015. Nid yw'r ASB/Safonau Bwyd yr Alban wedi nodi unrhyw ffactorau dilys eraill a fyddai'n atal awdurdodiad, felly oni bai bod yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn nodi unrhyw ffactorau dilys eraill y mae'n rhaid i Weinidogion eu hystyried wrth wneud penderfyniadau o ran awdurdodi, cyngor yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban i Weinidogion fydd awdurdodi yn unol â'r telerau arfaethedig sydd wedi'u hamlinellu yn y safbwynt.

Roedd y ffactorau dilys eraill a ystyriwyd yn cynnwys dichonoldeb gwleidyddol, economaidd, amgylcheddol, technegol a chymdeithasol, buddiannau defnyddwyr, ac ymddygiadau defnyddwyr. Ni wnaeth ein hasesiad ar y cyd o'r ffactorau dilys eraill y gallai Gweinidogion eu hystyried wrth wneud penderfyniadau nodi unrhyw beth o bwys, ac eithrio'r ffactorau a amlinellir [ym mhrif destun y ddogfen hon](#) ac awdurdodiad diweddar gan yr UE ar gyfer y GMO hon.

Mae'r GMO hon wedi'i hawdurdodi i'w defnyddio yng Ngogledd Iwerddon, yn unol â deddfwriaeth yr UE sy'n gymwys yng Ngogledd Iwerddon, o dan Brotoocol Gogledd Iwerddon.

[Dychwelyd i frig y ddogfen ymgynghori.](#)

Atodiad D: RP1138 – Ffa soia SYHT0H2 (awdurdodiad newydd)

Cefndir

Yn unol â [Rheoliad yr UE a Ddargedwir 1829/2003](#) ar gyfer rhoi bwyd a bwyd anifeiliaid a addaswyd yn enetig ar y farchnad ym Mhrydain Fawr, mae cais RP1138 wedi'i gyflwyno ar gyfer asesu ffa soia a addaswyd yn enetig SYHT0H2, a hynny er mwyn cael awdurdodiad newydd i'w ddefnyddio at ddibenion bwyd a bwyd anifeiliaid.

Datblygwyd ffa soia SYHT0H2 i roi goddefedd rhag y sylwedd gweithredol chwynladdol mesotrión a chwynladdwyr eraill sy'n atal p-hydrocsiffenylpyrwyd deuocsigenas (HPPD) ac amoniwm glwffosinad. Mae ffa soia SYHT0H2 yn cynnwys mewnosodiad unigol sy'n cynnwys un copi o'r genyn *avhppd-03* a phedwar copi o'r genyn *pat*.

Mae'r cynnyrch hwn wedi'i awdurdodi i'w roi ar y farchnad yn yr UE ac yng Ngogledd Iwerddon, o dan Brotocol Gogledd Iwerddon, fel y nodir ym Mhenderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2021/64.

Telerau awdurdodi arfaethedig

Mae safbwynt yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban, sy'n ystyried y [safbwynt gwyddonol](#), o blaid awdurdodi'r GMO hon, yn seiliedig ar asesiad risg a chasgliadau diogelwch. Amlinellir y telerau awdurdodi arfaethedig isod.

Yr organeb a addaswyd yn enetig a'i dynodwr unigryw:

- i. Ffa soia SYN-ØØØH2-5
1. Dynodiad a manyleb y cynhyrchion:
 - i. bwydydd a chynhwysion bwyd sy'n cynnwys neu sydd wedi'u cynhyrchu gan ddefnyddio ffa soia a addaswyd yn enetig SYN-ØØØH2-5;
 - ii. bwyd anifeiliaid sy'n cynnwys neu sydd wedi'i gynhyrchu gan ddefnyddio ffa soia a addaswyd yn enetig SYN-ØØØH2-5;
 - iii. cynhyrchion sy'n cynnwys ffa soia a addaswyd yn enetig SYN-ØØØH2-5 at ddibenion heblaw'r rheiny y darperir ar eu cyfer ym mhwyntiau (i) a (ii), ac eithrio amaethu.

Mae ffa soia a addaswyd yn enetig SYN-ØØØH2-5 yn mynegi'r genyn *avhppd-03*, sy'n rhoi goddefedd rhag chwynladdwyr sy'n atal p-hydrocsffenylypyrwyfad deuocsigenas (HPPD), a'r genyn *pat*, sy'n rhoi goddefedd rhag chwynladdwyr sy'n seiliedig ar amoniwm glwffosinad.

2. Labelu:

- i. At ddibenion y gofynion labelu a nodir yn Erthyglau 13(1) a 25(2) o Reoliad yr UE a Ddargedwir Rhif 1829/2003, ac yn Erthygl 4(6) o Reoliad yr UE a Ddargedwir Rhif 1830/2003, 'enw'r organeb' fydd 'soybean'.
- ii. Rhaid i'r geiriau 'not for cultivation' ymddangos ar y label ac yn y dogfennau sy'n cyd-fynd â'r cynhyrchion sy'n cynnwys ffa soia a addaswyd yn enetig SYN-ØØØH2-5, ac eithrio bwyd a chynhwysion bwyd.

3. Dull canfod:

- i. Y dulliau canfod PCR digwyddiad-benodol meintiol yw'r rheiny a ddilyswyd ar gyfer digwyddiad ffa soia a addaswyd yn enetig SYN-ØØØH2-5.
- ii. Wedi'u dilysu gan labordy cyfeirio'r UE, a sefydlwyd o dan Reoliad yr UE Rhif 1829/2003.
- iii. Deunydd Cyfeirio: Gellir cyrchu AOCS 0112-A trwy Gymdeithas Cemegwyr Olew America (AOCS)

4. Cynllun monitro ar gyfer effeithiau amgylcheddol:

- i. Rhaid i ddeiliad yr awdurdodiad sicrhau y rhoddir ar waith gynllun monitro ar gyfer effeithiau amgylcheddol, a gyflwynwyd gyda'r cais i awdurdodi'r indrawn a addaswyd yn enetig y cyfeirir ato ym mharagraff 1, cyfeirnod "RP1138" a gyflwynwyd i'r Awdurdod Diogelwch Bwyd ar 6 Mehefin 2021.
- ii. Rhaid i ddeiliad yr awdurdodiad gyflwyno adroddiadau blynyddol ar weithredu a chanlyniadau'r gweithgareddau a nodir yn y cynllun monitro i'r Awdurdod Diogelwch Bwyd, yn unol â'r fformat a nodir yn Atodiad 2 i Benderfyniad 2009/770.

5. Deiliad yr awdurdodiad

- i. Syngenta Crop Protection AG
- ii. Fe'i cynrychiolir ym Mhrydain Fawr gan Syngenta Limited of Jealott's Hill International Research Centre, Bracknell, Berkshire, England, RG42 6EY.

Unrhyw ddarpariaethau perthnasol yng nghyfraith yr UE a ddargedwir

Dulliau dadansoddol

- Yn unol ag Erthygl 32 o Reoliad yr UE a Ddargedwir 1829/2003, ac Atodiad I iddo, mae dulliau dadansoddol wedi'u dilysu gan y Labordy Cyfeirio GMOs, LGC, fel rhai priodol i'w defnyddio wrth ganfod a chynnal rheolaethau swyddogol ar ffa soia SYHT0H2. [Mae dulliau dadansoddol dilys wedi'u cyhoeddi.](#)

Labelu

- Mae labelu yn darparu gwybodaeth i ddefnyddwyr ac yn eu galluogi i wneud dewis gwybodus.
- Yn unol â [Rheoliad yr UE a Ddargedwir 1830/2003](#) ynghylch labelu ac olrhain GMOs, ac olrhain cynhyrchion bwyd a bwyd anifeiliaid a gynhyrchir gan ddefnyddio GMOs, ceir gofyniad o ran labelu ac olrhain cynhyrchion bwyd a bwyd anifeiliaid sy'n deillio o ffynonellau GM, ni waeth beth yw presenoldeb GMOs canfyddadwy yn y cynnyrch terfynol, neu swm y cynhwysyn GM sy'n fwriadol bresennol.
- Yn unol â [Rheoliad yr UE a Ddargedwir 1830/2003](#) ynghylch cynhyrchion bwyd/bwyd anifeiliaid GM sydd wedi'u pecynnu ymlaen llaw sy'n cynnwys GMOs, rhaid i'r geiriau 'This product contains genetically modified organisms' neu 'This product contains genetically modified [name of organism(s)]' ymddangos ar label. Yn achos cynhyrchion sydd heb ddeunydd pecynnu, rhaid i'r geiriau hyn gael eu harddangos yn glir yn union wrth ymyl y cynnyrch.
- Rhaid i weithredwyr sicrhau bod y Dynodwr Unigryw SYN-ØØØH2-5 yn dod gyda datganiad ysgrifenedig o bresenoldeb GMO ar gyfer swyddogaethau olrhain, gan gychwyn gyda'r camau cyntaf, sef rhoi'r cynnyrch ar y farchnad, gan gynnwys mewn symiau mawr.

Ffactorau dilys eraill a nodwyd y gallai Gweinidogion eu hystyried wrth wneud penderfyniadau

Cam nesaf y broses awdurdodi yw i Weinidogion wneud penderfyniadau o ran awdurdodi. Gan ddwyn i ystyriaeth safbwynt yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban, gallai Gweinidogion benderfynu awdurdodi'r cynnyrch. Gan fod y safbwynt wedi dod i'r casgliad bod y cynnyrch yn ddiogel i'w awdurdodi ar sail y telerau arfaethedig, barn yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban yw nad oes unrhyw resymau i Weinidogion wrthod awdurdodi, oni bai bod yna ffactorau dilys eraill a allai nodi fel arall. Wrth gyflwyno cyngor a chynorthwyo Gweinidogion, mae'r ASB a Safonau Bwyd yr Alban yn gweithredu yn unol â'u swyddogaethau o dan Ddeddf Safonau Bwyd 1999 a Deddf Bwyd (yr Alban) 2015. Nid yw'r ASB/Safonau Bwyd yr Alban wedi nodi unrhyw ffactorau dilys eraill a fyddai'n atal awdurdodiad, felly oni bai bod yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn nodi unrhyw ffactorau dilys eraill y mae'n rhaid i Weinidogion eu hystyried wrth wneud penderfyniadau o ran awdurdodi, cyngor yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban i Weinidogion fydd awdurdodi yn unol â'r telerau arfaethedig sydd wedi'u hamlinellu yn y safbwynt.

Roedd y ffactorau dilys eraill a ystyriwyd yn cynnwys dichonoldeb gwleidyddol, economaidd, amgylcheddol, technegol a chymdeithasol, buddiannau defnyddwyr, ac ymddygiadau defnyddwyr. Ni wnaeth ein hasesiad ar y cyd o'r ffactorau dilys eraill y gallai Gweinidogion eu hystyried wrth wneud penderfyniadau nodi unrhyw beth o bwys, ac eithrio'r ffactorau a amlinellir [ym mhrif destun y ddogfen hon](#) ac awdurdodiad diweddar gan yr UE ar gyfer y GMO hon.

Mae'r GMO hon wedi'i hawdurdodi i'w defnyddio yng Ngogledd Iwerddon, yn unol â deddfwriaeth yr UE sy'n gymwys yng Ngogledd Iwerddon, o dan Brotoocol Gogledd Iwerddon.

[Dychwelyd i frig y ddogfen ymgynghori.](#)

Atodiad E: RP1179 – Indrawn MON 88017 x MON 810 (adnewyddu awdurdodiad)

Cefndir

Yn unol â [Rheoliad yr UE a Ddargedwir 1829/2003](#) ar gyfer rhoi bwyd a bwyd anifeiliaid a addaswyd yn enetig ar y farchnad ym Mhrydain Fawr, mae cais RP1179 wedi'i gyflwyno ar gyfer asesu indrawn a addaswyd yn enetig MON 88017 x MON 810, a hynny er mwyn adnewyddu awdurdodiad i'w ddefnyddio at ddibenion bwyd a bwyd anifeiliaid.

Mae'r indrawn a addaswyd yn enetig MON 88017 x MON 810 yn mynegi'r proteinau Cry3Bb1 a Cry1Ab, sydd y naill fel y llall yn rhoi amddiffyniad rhag plâu chwilenol penodol (nodwedd MON 88017) a phlâu cenadeiniog penodol (nodwedd MON 810), a'r protein CP4 EPSPS, sy'n rhoi goddefedd rhag chwynladdwyr sy'n seiliedig ar glyffosad (nodwedd MON 88017).

Adnewyddwyd awdurdodiad y cynnyrch hwn yn yr UE ac yng Ngogledd Iwerddon, o dan Protocol Gogledd Iwerddon, fel y nodir ym Mhenderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2021/1393.

Telerau awdurdodi arfaethedig

Mae safbwynt yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban, sy'n ystyried y [safbwynt gwyddonol](#), o blaid awdurdodi'r GMO hon, yn seiliedig ar asesiad risg a chasgliadau diogelwch. Mae'r telerau awdurdodi arfaethedig yn parhau yr un fath â'r rheiny ar gyfer yr awdurdodiad cyfredol, ac fe'u hamlinellir isod.

Yr organeb a addaswyd yn enetig a'i dynodwr unigryw:

i. Indrawn MON88Ø17-3 x MON-ØØ81Ø-6

1. Dynodiad a manyleb y cynhyrchion:

i. bwydydd a chynhwysion bwyd sy'n cynnwys neu sydd wedi'u cynhyrchu gan ddefnyddio indrawn a addaswyd yn enetig MON88Ø17-3 x MON-ØØ81Ø-6;

ii. bwyd anifeiliaid sy'n cynnwys neu sydd wedi'i gynhyrchu gan ddefnyddio indrawn a addaswyd yn enetig MON88Ø17-3 x MON-ØØ81Ø-6;

iii. cynhyrchion sy'n cynnwys indrawn a addaswyd yn enetig MON88Ø17-3 x MON-ØØ81Ø-6 at ddibenion heblaw'r rheiny y darperir ar eu cyfer ym mhwyntiau (i) a (ii), ac eithrio amaethu.

Mae'r indrawn a addaswyd yn enetig MON88Ø17-3 x MON-ØØ81Ø-6 yn mynegi'r proteinau Cry3Bb1 a Cry1Ab, sydd y naill fel y llall yn rhoi amddiffyniad rhag plâu chwilenol penodol a phlâu cenadeiniog penodol, a'r protein CP4 EPSPS, sy'n rhoi goddefedd rhag chwynladdwyr sy'n seiliedig ar glyffosad.

2. Labelu:

- i. At ddibenion y gofynion labelu a nodir yn Erthyglau 13(1) a 25(2) o Reoliad yr UE a Ddargedwir Rhif 1829/2003, ac yn Erthygl 4(6) o Reoliad yr UE a Ddargedwir Rhif 1830/2003, 'enw'r organeb' fydd 'maize'.
- ii. Rhaid i'r geiriau 'not for cultivation' ymddangos ar y label ac yn y dogfennau sy'n cyd-fynd â'r cynhyrchion sy'n cynnwys indrawn a addaswyd yn enetig MON88Ø17-3 x MON-ØØ81Ø-6, ac eithrio bwyd a chynhwysion bwyd.

3. Dull canfod:

- i. Y dulliau canfod PCR digwyddiad-benodol meintiol yw'r rheiny sydd wedi'u dilysu'n unigol ar gyfer digwyddiadau indrawn addaswyd yn enetig MON88Ø17-3, MON-ØØ81Ø-6, ac sydd wedi'u dilysu ymhellach ar gyfer indrawn MON88Ø17-3 x MON-ØØ81Ø-6.
- ii. Wedi'u dilysu gan labordy cyfeirio'r UE, a sefydlwyd o dan Reoliad yr UE Rhif 1829/2003.
- iii. Deunydd Cyfeirio: Gellir cyrchu AOCS 0406-D2 (ar gyfer MON-88Ø17-3) trwy Gymdeithas Cemegwyr Olew America, a gellir cyrchu ERM®-BF413 (ar gyfer MON-ØØ81Ø-6) trwy Ganolfan Ymchwil ar y Cyd (JRC) y Comisiwn Ewropeaidd, y Sefydliad ar gyfer Deunyddiau a Mesuriadau Cyfeirio (IRMM).

4. Cynllun monitro ar gyfer effeithiau amgylcheddol:

- i. Rhaid i ddeiliad yr awdurdodiad sicrhau y rhoddir ar waith gynllun monitro ar gyfer effeithiau amgylcheddol, a gyflwynwyd gyda'r cais i awdurdodi'r indrawn a addaswyd yn enetig y cyfeirir ato ym mharagraff 1, cyfeirnod "RP1179" a gyflwynwyd i'r Awdurdod Diogelwch Bwyd ar 25 Mehefin 2021.

ii. Rhaid i ddeiliad yr awdurdodiad gyflwyno adroddiadau blynyddol ar weithredu a chanlyniadau'r gweithgareddau a nodir yn y cynllun monitro i'r Awdurdod Diogelwch Bwyd, yn unol â'r fformat a nodir yn Atodiad 2 i Benderfyniad 2009/770.

5. Deiliad yr awdurdodiad

i. Bayer CropScience LP

ii. Fe'i cynrychiolir ym Mhrydain Fawr gan Bayer CropScience Ltd of 230 Cambridge Science Park, Milton Road, Cambridge, England, CB4 0WB

Unrhyw ddarpariaethau perthnasol yng nghyfraith yr UE a ddargedwir

Dulliau dadansoddol

- Yn unol ag Erthygl 32 o Reoliad yr UE a Ddargedwir 1829/2003, ac Atodiad I iddo, mae dulliau dadansoddol wedi'u dilysu gan y Labordy Cyfeirio GMOs, LGC, fel rhai priodol i'w defnyddio wrth ganfod a chynnal rheolaethau swyddogol ar indrawn MON 88017 x MON 810. [Mae dulliau dadansoddol dilys wedi'u cyhoeddi.](#)

Labelu

- Mae labelu yn darparu gwybodaeth i ddefnyddwyr ac yn eu galluogi i wneud dewis gwybodus.
- Ni fydd adnewyddu awdurdodiad indrawn a addaswyd yn enetig MON 88017 x MON 810 yn newid ei statws cyfredol o ran gofynion labelu gorfodol ar gyfer organebau a addaswyd yn enetig.
- Yn unol â [Rheoliad yr UE a Ddargedwir 1830/2003](#) ynghylch labelu ac olrhain GMOs, ac olrhain cynhyrchion bwyd a bwyd anifeiliaid a gynhyrchir gan ddefnyddio GMOs, ceir gofyniad o ran labelu ac olrhain cynhyrchion bwyd a bwyd anifeiliaid sy'n deillio o ffynonellau GM, ni waeth beth yw presenoldeb GMOs canfyddadwy yn y cynnyrch terfynol, neu swm y cynhwysyn GM sy'n fwriadol bresennol.

- Yn unol â [Rheoliad yr UE a Ddargedwir 1830/2003](#) ynghylch cynhyrchion bwyd/bwyd anifeiliaid sydd wedi'u pecynnu ymlaen llaw sy'n cynnwys GMOs, rhaid i'r geiriau 'This product contains genetically modified organisms' neu 'This product contains genetically modified [name of organism(s)]' ymddangos ar label. Yn achos cynhyrchion sydd heb ddeunydd pecynnu, rhaid i'r geiriau hyn gael eu harddangos yn glir yn union wrth ymyl y cynnyrch.
- Rhaid i weithredwyr sicrhau bod y Dynodwr Unigryw MON88Ø17-3 x MON-ØØ81Ø-6 yn dod gyda datganiad ysgrifenedig o bresenoldeb GMO ar gyfer swyddogaethau olrhain, gan gychwyn gyda'r camau cyntaf, sef rhoi'r cynnyrch ar y farchnad, gan gynnwys mewn symiau mawr.

Ffactorau dilys eraill a nodwyd y gallai Gweinidogion eu hystyried wrth wneud penderfyniadau

Cam nesaf y broses awdurdodi yw i Weinidogion wneud penderfyniadau o ran awdurdodi. Gan ddwyn i ystyriaeth safbwynt yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban, gallai Gweinidogion benderfynu awdurdodi'r cynnyrch. Gan fod y safbwynt wedi dod i'r casgliad bod y cynnyrch yn ddiogel i'w awdurdodi ar sail y telerau arfaethedig, barn yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban yw nad oes unrhyw resymau i Weinidogion wrthod awdurdodi, oni bai bod yna ffactorau dilys eraill a allai nodi fel arall. Wrth gyflwyno cyngor a chynorthwyo Gweinidogion, mae'r ASB a Safonau Bwyd yr Alban yn gweithredu yn unol â'u swyddogaethau o dan Ddeddf Safonau Bwyd 1999 a Deddf Bwyd (yr Alban) 2015. Nid yw'r ASB/Safonau Bwyd yr Alban wedi nodi unrhyw ffactorau dilys eraill a fyddai'n atal awdurdodiad, felly oni bai bod yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn nodi unrhyw ffactorau dilys eraill y mae'n rhaid i Weinidogion eu hystyried wrth wneud penderfyniadau o ran awdurdodi, cyngor yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban i Weinidogion fydd awdurdodi yn unol â'r telerau arfaethedig sydd wedi'u hamlinellu yn y safbwynt.

Roedd y ffactorau dilys eraill a ystyriwyd yn cynnwys dichonoldeb gwleidyddol, economaidd, amgylcheddol, technegol a chymdeithasol, buddiannau defnyddwyr, ac ymddygiadau defnyddwyr. Ni wnaeth ein hasesiad ar y cyd o'r ffactorau dilys eraill y gallai Gweinidogion eu hystyried wrth wneud penderfyniadau nodi unrhyw beth o bwys, ac eithrio'r ffactorau a amlinellir [ym mhrif destun y ddogfen hon](#) ac awdurdodiad diweddar gan yr UE ar gyfer y GMO hon.

Mae'r GMO hon wedi'i hawdurdodi i'w defnyddio yng Ngogledd Iwerddon, yn unol â deddfwriaeth yr UE sy'n gymwys yng Ngogledd Iwerddon, o dan BroTOCOL Gogledd Iwerddon.

[Dychwelyd i frig y ddogfen ymgynghori.](#)

Atodiad F: RP1180 – Indrawn MON 87427 × MON 87460 × MON 89034 × 1507 × MON 87411 × 59122 a'i is-gyfuniadau (awdurdodiad newydd)

Cefndir

